**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3144 (Cy.272) (C.136)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2004 ac 1 Ionawr 2005 y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg Uwch 2004 a bennir yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â chwynion myfyrwyr a staff a gyflwynwyd i'r ymwelydd cyn 1 Ionawr 2005.

Yn fyr, mae'r darpariaethau hyn yn Neddf Addysg Uwch 2004 yn darparu ar gyfer terfynu awdurdodaeth yr ymwelydd dros anghydfod staff a chwynion myfyrwyr. Maent hefyd yn darparu y bydd corff a ddynodir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu cynllun i adolygu cwynion myfyrwyr. Mae cyfranogi yn y cynllun yn orfodol i sefydliadau cymwys.

Mae effaith pob darpariaeth o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a bennir yn yr Atodlen fel a ganlyn -

Mae adran 11 yn nodi'r sefydliadau cymwys a fydd yn ddarostyngedig i'r cynllun newydd i adolygu cwynion myfyrwyr. Y sefydliadau hyn yw prifysgolion, colegau cyfansoddol y prifysgolion, corfforaethau addysg uwch a sefydliadau a ddynodir gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn gymwys i'w cyllido gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3144 (W.272) (C.136)

# EDUCATION, WALES

## The Higher Education Act 2004 (Commencement No.1 and Transitional Provision) (Wales) Order 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order brings into force in Wales on 1 December 2004 and 1 January 2005 those provisions of the Higher Education Act 2004 specified in Parts 1 and 2 of the Schedule to this Order. The Order also makes transitional provision in relation to student and staff complaints which were submitted to the visitor before 1 January 2005.

In brief, these provisions of the Higher Education Act 2004 provide for the termination of the visitors' jurisdiction over staff disputes and student complaints. They also provide that a body to be designated by the National Assembly will operate a scheme for the review of student complaints. Participation in the scheme is compulsory for qualifying institutions.

The effect of each the provisions of the Higher Education Act 2004 specified in the Schedule is as follows -

Section 11 sets out the qualifying institutions that will be subject to the new scheme for the review of student complaints. These institutions are universities, constituent colleges of universities, higher education corporations and institutions designated by the National Assembly as eligible for funding from the Higher Education Funding Council for Wales.

Mae adran 12 yn diffinio cwynion cymwys at ddibenion y cynllun. Mae'r rhain yn gwynion yn erbyn sefydliadau cymwys mewn perthynas â gweithredoedd neu anweithiau'r sefydliadau hynny. Unigolion sy'n gwneud y cwynion a rhaid iddynt wneud hynny fel myfyrwyr neu gynfyfyrwyr o'r sefydliadau neu fyfyrwyr sy'n astudio am ddyfarniad o sefydliad cymwys. Ni chynhwysir cwynion ynghylch barn academaidd yn y cynllun.

Section 12 defines qualifying complaints for the purposes of the scheme. These are complaints against qualifying institutions in respect of acts or omissions of those institutions. Individuals make the complaints and must do so as students or former students of the institutions or students studying towards an award from a qualifying institution. Complaints relating to academic judgement are excluded from the scheme.

Mae adran 13 ac Atodlenni 1 a 2 yn rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddynodi corff i weithredu'r cynllun cwynion myfyrwyr yng Nghymru ac yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddynodi corff o'r fath ("y gweithredydd dynodedig"). Mae'r amodau'n cynnwys gofyniad bod y corff yn cydymffurfio ag Atodlen 1 a bod darpariaethau'r cynllun y mae'n eu gweithredu yn cydymffurfio ag Atodlen 2.

Section 13 and Schedules 1 and 2 give the National Assembly power to designate a body to operate the student complaints scheme in Wales and set out conditions which must be met before the National Assembly may designate such a body (the "designated operator"). The conditions include a requirement for the body to comply with Schedule 1 and for the provisions of the scheme it operates to comply with Schedule 2.

Mae adran 14 ac Atodlen 3 yn darparu cyhyd â bod corff yn parhau fel y gweithredydd dynodedig rhaid iddo gydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn Atodlen 3. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i ddarparu cynllun, dyletswydd i gyhoeddi'r cynllun, dyletswydd i gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y cynllun a dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol.

Section 14 and Schedule 3 provide that as long as a body remains the designated operator it must comply with the duties set out in Schedule 3. These include a duty to provide a scheme, a duty to publish the scheme, a duty to comply with requirements imposed by the scheme and a duty to produce an annual report.

Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau cymwys gymryd rhan mewn cynllun a ddarperir gan y gweithredydd dynodedig. Rhaid i'r sefydliadau hynny gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir arnynt gan y cynllun, gan gynnwys unrhyw rwymedigaeth i dalu'r gweithredydd dynodedig.

Section 15 requires governing bodies of qualifying institutions to participate in a scheme provided by the designated operator. Those institutions must comply with obligations placed on them by the scheme, including any obligation to make payments to the designated operator.

Mae adran 16 ac Atodlen 4 yn rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol, mewn amgylchiadau penodol, y pŵer i derfynu dynodiad corff fel gweithredydd dynodedig. Gall y Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r terfyniad os nad yw'r gweithredydd bellach yn bodloni'r amodau ar gyfer y dynodiad a gall y gweithredydd hysbysu ei fwriad i roi pen ar weithredu'r cynllun.

Section 16 and Schedule 4 give the National Assembly, in certain circumstances, power to terminate the designation of a body as the designated operator. The National Assembly can give notice of termination if the operator no longer meets the conditions for designation and the operator can give notice of its intention to cease operating the scheme.

Mae adran 17 yn darparu braint mewn perthynas â difenwi mewn cysylltiad ag adolygu cwynion myfyrwyr.

Section 17 provides privilege in relation to defamation in connection with the review of student complaints.

Mae adran 18 yn darparu pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud darpariaeth drosiannol amgen (gan gynnwys darpariaeth o ran taliadau) os ceir cytundeb neu hysbysiad i derfynu dynodiad gweithredydd, neu os bydd y gweithredydd wedi peidio â bodoli.

Section 18 provides a power for the National Assembly to make alternative transitional provision (including provision as to payments) where an agreement or notice to terminate an operator's designation has been reached or given, or the operator has ceased to exist.

Mae adran 20 yn disodli awdurdodaeth ymwelwyr y sefydliadau cymwys dros gwynion myfyrwyr, gan gynnwys cwynion am dderbyn myfyrwyr i sefydliadau cymwys.

Section 20 removes the jurisdiction of visitors of qualifying institutions over student complaints, including complaints about admissions as student to qualifying institutions.

Mae adran 21 yn cynnwys diffiniadau.

Section 21 contains definitions.

Mae adran 46 yn disodli awdurdodaeth ymwelwyr dros anghydfod staff.

Section 46 removes the jurisdiction of visitors over staff disputes.

Mae adran 50 ac Atodlen 7 yn darparu ar gyfer diddymiadau.

Section 50 and Schedule 7 provide for repeals.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3144 (Cy.272) (C.136)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004

*Wedi'i wneud* *30 Tachwedd 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adrannau 47(5) a 52(6), o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**a**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004.

**2**. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru yn unig.

**3**. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a'r Atodlenni iddi.

**Diwrnodau penodedig**

**4**. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym yw 1 Rhagfyr 2004.

**5**. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym yw 1 Ionawr 2005.

**Darpariaeth drosiannol**

**6**. Er gwaethaf dwyn i rym adran 20 ac adran 46, mae gan ymwelydd sefydliad cymwys awdurdodaeth mewn perthynas â -

(a) unrhyw gŵyn sy'n dod o fewn adran 20(2) neu (3) os cyflwynwyd y gŵyn honno i'r ymwelydd cyn 1 Ionawr 2005; a

(a) 2004 p.8.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3144 (W.272) (C.136)

# EDUCATION, WALES

## The Higher Education Act 2004 (Commencement No.1 and Transitional Provision) (Wales) Order 2004

*Made* *30 November 2004*

The National Assembly for Wales, in exercise of the power conferred upon it by sections 47(5) and 52(6), of the Higher Education Act 2004(**a**), hereby makes the following Order:

**Name, application and interpretation**

**1**. This Order is called Higher Education Act 2004 (Commencement No.1 and Transitional Provision) (Wales) Order 2004.

**2**. Provisions brought into force by this Order are brought into force only in relation to Wales.

**3**. In this Order, unless otherwise stated, references to sections and Schedules are references to sections of and Schedules to the Higher Education Act 2004.

**Appointed days**

**4**. The day appointed for the coming into force of the provisions specified in Part 1 of the Schedule to this Order is 1 December 2004.

**5**. The day appointed for the coming into force of the provisions specified in Part 2 of the Schedule to this Order is 1 January 2005.

**Transitional Provision**

**6**. Notwithstanding the coming into force of section 20 and section 46, the visitor of a qualifying institution has jurisdiction in respect of -

(a) any complaint which falls within section 20 (2) or (3) if that complaint was submitted to the visitor prior to 1 January 2005; and

(a) 2004 c.8.

(b) unrhyw gŵyn sy'n dod o fewn adran 46(1) os cyflwynwyd y gŵyn honno i'r ymwelydd cyn 1 Ionawr 2005.

(b) any complaint which falls within section 46(1) if that complaint was submitted to the visitor prior to 1 January 2005.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

30 Tachwedd 2004

30 November 2004

*John Marek*

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

## YR ATODLEN

Erthyglau 4 a 5

### RHAN 1

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Rhagfyr 2004

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 11 | Sefydliadau cymwys |
| Adran 12 | Cwynion cymwys |
| Adran 13 | Dynodiad y gweithredydd |
| Adran 14 | Dyletswyddau gweithredydd dynodedig |
| Adran 15 | Dyletswyddau sefydliadau cymwys |
| Adran 16 | Terfynu dynodiad |
| Adran 17 | Braint mewn perthynas â chyfraith difenwi |
| Adran 18 | Y ddarpariaeth os yw dynodiad gweithredydd yn dod i ben |
| Adran 21 | Dehongli |
| Atodlen 1 | Amodau i'w bodloni gan weithredydd cynllun cwynion myfyrwyr |
| Atodlen 2 | Amodau i'w bodloni gan gynllun cwynion myfyrwyr |
| Atodlen 3 | Dyletswyddau gweithredydd dynodedig |
| Atodlen 4 | Terfynu dynodiad gweithredydd |

## SCHEDULE

Articles 4 and 5

### PART 1

Provisions coming into force on 1 December 2004

| *Provision* | *Subject matter* |
|---|---|
| Section 11 | Qualifying institutions |
| Section 12 | Qualifying complaints |
| Section 13 | Designation of operator |
| Section 14 | Duties of designated operator |
| Section 15 | Duties of qualifying institutions |
| Section 16 | Termination of designation |
| Section 17 | Privilege in relation to law of defamation |
| Section 18 | Provision where designation of operator to cease |
| Section 21 | Interpretation |
| Schedule 1 | Conditions to be met by operator of student complaints scheme |
| Schedule 2 | Conditions to be met by student complaints scheme |
| Schedule 3 | Duties of designated operator |
| Schedule 4 | Termination of designation of operator |

**RHAN 2**

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2005

| *Y ddarpariaeth* | *Y pwnc* |
|---|---|
| Adran 20 | Hepgor awdurdodaeth ymwelydd mewn perthynas â chwynion myfyrwyr |
| Adran 46 | Hepgor awdurdodaeth ymwelydd mewn perthynas ag anghydfod staff |
| Adran 50 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atloden 7 isod | Diddymiadau |
| Yn Atodlen 7 diddymiadau yn Neddf Diwygio Addysg 1988 (p.40) | Diddymiadau |

**PART 2**

Provisions coming into force on 1 January 2005

| *Provision* | *Subject matter* |
|---|---|
| Section 20 | Exclusion of visitor's jurisdiction in relation to student complaints |
| Section 46 | Exclusion of visitor's jurisdiction in relation to staff disputes |
| Section 50 so far as it relates to provisions of Schedule 7 below | Repeals |
| In Schedule 7 the repeals in the Education Reform Act 1988 (c.40) | Repeals |

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 3144 (Cy.272) (C.136)

# ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 3144 (W.272) (C.136)

# EDUCATION, WALES

The Higher Education Act 2004 (Commencement No.1 and Transitional Provision) (Wales) Order 2004

©⊕ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091039-7

9 780110 910390

**£3.00**

W178/12/04 ON